



Bwrdd Plismona Cymru
Dydd Iau 16 Mai 2019 (16:00-17:30)
Ystafell Cynadledda 2, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Cofnodion

Yn bresennol

Jane Hutt AC, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Jeff Cuthbert, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) Gwent a Chadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan

Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) Gogledd Cymru

Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) De Cymru

Sian Curley, Prif Weithredwr, Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent

Cerith Thomas, Cynghorydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i'r Tîm Plismona Cymru Gyfan

Julian Williams, Prif Gwnstabl (CC), Heddlu Gwent

Carl Foulkes, Prif Gwnstabl (CC), Heddlu Gogledd Cymru

Matt Jukes, Prif Gwnstabl (CC), Heddlu De Cymru

Claire Parmenter, Dirprwy Brif Gwnstabl (DCC), Heddlu Dyfed Powys

Robert Evans, Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan

Steve Thomas, Uwcharolygydd, Uned Cyswllt yr Heddlu

Chris O'Driscoll, Arolygydd, Uned Cyswllt yr Heddlu

Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru

Joanna Jordan, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Llywodraethu a Chorfforaethol y GIG

Gary Haggaty, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru

Nick Sullivan, Rheolwr Adolygu Cyllid Cyhoeddus, Economi, Sgiliau a Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru

Debbie Wilcox, Cynghorydd, Arweinydd CLILC

Chris Llewellyn, Prif Weithredwr, CLILC

Ymddiheuriadau

Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys

Mark Collins, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys

Carys Morgans, Pennaeth Staff, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Dyfed Powys

Naomi Alleyne, CLILC, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus a Thai

1. Anerchiad agoriadol y Cadeirydd

- 1.1 Agorodd Jane Hutt, AC, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y cyfarfod a diolchodd i bawb am ddod. Cyflwynodd y sawl a oedd yn bresennol eu hunain a nodwyd ymddiheuriadau.

2. Iechyd Meddwl

- 2.1 Rhoddodd DCC Parmenter y wybodaeth ddiweddaraf ar ran CC Collins i'r grŵp. Esboniodd, yn ystod ymarfer monitro galw iechyd meddwl 24 awr ledled Cymru, rhoddwyd gwybod i'r heddlu am 200 o achosion yn ymwneud ag iechyd meddwl. Esboniwyd na ddefnyddiwyd pwerau'r heddlu yn y mwyafrif helaeth o ddigwyddiadau iechyd meddwl yr heddlu. Pwysleisiodd PCC Michael fod peidio â rhoi pobl sy'n cael eu cadw o ganlyniad i'w hiechyd meddwl mewn celloedd yn golygu bod goblygiad mawr o ran adnoddau i'r heddlu.
- 2.2 Esboniodd DCC Parmenter fod pob heddlu yn defnyddio rhyw fath o broses o frysennu iechyd meddwl ac yn cyflogi gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl ledled Cymru i wneud hyn. Roedd hyn yn golygu bod angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar bob heddlu, tua £1 miliwn y flwyddyn. Nododd PCC Cuthbert a PCC Michael fod heddluoedd Cymru yn talu costau brysennu a byddent yn gwerthfawrogi cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
- 2.3 **Cam Gweithredu 1: PCC Cuthbert i gyd-gysylltu ag ACC Drake / Uned Cyswllt yr Heddlu a Swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu rhagor o wybodaeth am gostau brysennu, gyda'r bwriad o nodi cyfleoedd posibl i gyllido gweithgarwch brysennu ar y cyd â Llywodraeth Cymru.**
- 2.4 Nododd DCC Parmenter hefyd fod cynllun gweithredu Concordat wedi cael ei ddatblygu ymhellach ers y cyfarfod diwethaf. Tynnodd sylw at y gwaith a wnaed i ddatblygu cymhwysiad iechyd meddwl i'w dreialu yn ardal Heddlu De Cymru / ardal bwrdd iechyd Rhondda Cynon Taf ym mis Mai 2019. Disgwylir y byddai'r cymhwysiad o fudd i'r heddlu a'r bwrdd iechyd o ran y data a fyddai'n cael eu casglu.
- 2.5 Gwnaeth DCC Parmenter hefyd nodi argymhellion allweddol adolygiad Sir Simon Wesley a phwysigrwydd cynllun gweithredu iechyd meddwl y Swyddfa Gartref. Pwysleisiodd fod yr heddluoedd yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Gwnaed argymhelliad i sefydlu grŵp o swyddogion yr heddlu/gweision sifil i ymchwilio ymhellach i'r maes hwn.
- 2.6 Nododd PCC Michael, yn ei farn ef, nad oedd Heddlu De Cymru yn perfformio cystal â Heddlu Gogledd Cymru neu Heddlu Gwent mewn perthynas â'r galw iechyd meddwl. Nododd fod Heddlu De Cymru dan anfantais o gymharu â'r ardaloedd hynny am fod ffiniau'r heddlu a ffiniau iechyd yn gyson, ac nad oedd hynny'n wir yn ardal Heddlu De Cymru. Gyda chymeradwyaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a'r Prif Gwnstabl, roedd yn arwain ymdrechion i sefydlu tri grŵp yn Ne Cymru ar y cyd â phob un o'r tri Bwrdd Iechyd.

2.7 Nododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y dylai grŵp Concordat iechyd meddwl a gadeiriwyd gan MIND fod yn flaenoriaeth i GIG Cymru. Cytunodd Joanna Jordan a nododd fod yn rhaid i unrhyw waith sy'n cael ei wneud fynd drwy'r Concordat, yn enwedig os yw ar sail Cymru gyfan. Cynigiodd y byddai cyfarfod gwerthuso yn briodol er mwyn nodi'r sefyllfa bresennol yn ogystal â nodi pa fodelau brysbennu sy'n cael eu defnyddio gan yr heddlu a pha rai oedd yn gweithio orau. Roedd yn bwysig nodi bod y GIG yn ymrwymedig i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at gymorth mewn argyfwng ac mai'r nod gyffredinol yw osgoi defnyddio '999' yn yr achosion hynny. Pwysleisiodd PCC Michael na ddylid ystyried iechyd meddwl fel problem plismona, ond yn broblem unlle arall i fynd. Nododd fod yr heddlu yn gwneud cryn ymdrech i ddod o hyd i fannau diogel i bobl mewn argyfwng. Gofynnodd hefyd i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau gael eu gwahodd i'r cyfarfod gwerthuso arfaethedig.

2.8 Cam Gweithredu 2: Prif Swyddog Gweithredol Arweiniol y GIG i gydgyssylltu ag ACC Drake, PCC Michael a Swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn trefnu cyfarfod i drafod effeithiolrwydd proses brysbennu Cymru gyfan lechyd Meddwl yr Heddlu a gwahodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a rhanddeiliaid allweddol eraill. Rhagwelir y bydd y cyfarfod hwn yn nodi cyfleoedd a fydd yn ategu cam gweithredu 1.

2.9 Nododd Joanna Jordan fod adrannau lechyd yn cael data gwell gan yr heddlu sy'n arwain at ddiagnosis gwell ac felly, drwy hynny, ganlyniad gwell. Nododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip na ddylai triniaeth iechyd meddwl fod yn loteri cod post.

3. Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a Thrais Difrifol

3.1 Hysbysodd Jane Hutt, AC, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y sawl a oedd yn bresennol ei bod yn bleser mynychu'r digwyddiad Troseddau Cyfundrefnol Difrifol yng ngwesty'r Celtic Manor ar 9 Mai. Dywedodd ei fod yn ddigwyddiad da a oedd yn llawn gwybodaeth a gwnaeth hefyd gyfarfod â'r Gweinidog Diogelwch, Ben Wallace, AS. Diolchodd PCC Cuthbert i'r Dirprwy Weinidog a Debbie Wilcox am fod yn bresennol. Nododd nad effaith ar y gymuned yn unig oedd y mater allweddol, ond bod gweithio mewn partneriaeth yn dda wedi cael effaith hefyd. Ffaith a gafodd ei chydnabod gan Weinidog y DU a nododd fod Cymru'n arwain y ffordd yn y maes hwn. Roedd angen darparu gwasanaeth o hyd, ni waeth p'un a yw wedi'i ddatganoli ai peidio. Nododd PCC Cuthbert y gallai'r Bwrdd Plismona a Phartneriaeth gefnogi'r lefel hon o weithio mewn partneriaeth.

3.2 Gwnaeth CC Jukes hefyd ddiolch i'r Dirprwy Weinidog a'r Cynghorydd Debbie Wilcox am fod yn bresennol yn achlysur lansio'r Strategaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol. Nododd y dylid ymdrin â Thrais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol gyda'i gilydd yn yr un fforwm a byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol

- 3.3 Cam Gweithredu 3: CC Jukes i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y gwaith arfaethedig o uno Byrddau Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol Cymru gyfan yn ystod y cyfarfod nesaf.**
- 3.4 Rhoddodd CC Jukes drosolwg mewn perthynas â sefydlu Uned Lleihau Trais i Gymru. Esboniodd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru a Heddlu De Cymru yn ymrwymedig i sicrhau adnoddau ar gyfer yr uned; er nad oedd sefyllfa Llywodraeth y DU yn sicr. Esboniodd CC Jukes nad oes gan Gymru broblem cyffuriau sydd wedi deillio yn rhywle arall am fod y broblem eisoes yn bodoli yma. Nododd fod ardaloedd Abertawe/Port Talbot ymhlith y pum ardal uchaf yn DU o ran marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.
- 3.5 Wrth drafod pwnc troseddau'n ymwneud â chyllyll a throseddau difrifol, nododd CC Jukes fod Heddlu De Cymru wedi cael £1.2 miliwn gan Lywodraeth y DU. Byddai hynny'n cefnogi gallu cynyddol yr heddlu i orfodi'r gyfraith o ran mynd i'r afael â gweithgarwch 'Llinellau Cyffuriau' a gwneud mwy o ddefnydd o bwerau stopio a chwilio. Esboniodd fod gan Gaerdydd 41 o Linellau Cyffuriau ar hyn o bryd sy'n cael eu gweithredu gan gangiau cyffuriau sydd wedi'u lleoli yn Llundain. Dywedodd CC Jukes fod Heddlu De Cymru yn ymwybodol o'r problemau hyn ac yn cymryd camau blaenllaw mewn perthynas ag atal trais a mynd i'r afael â'r math hwn o alw.
- 3.6 Gwnaeth PCC Michael hefyd ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am fod yn bresennol yn y digwyddiad Lansio a nododd bod areithiau'r Dirprwy Weinidog a'r Cynghorydd Debbie Wilcox wedi gwneud cryn argraff ar Weinidog y DU, yn enwedig mewn perthynas â gwrthderfysgaeth. Yn ystod y digwyddiad, rhoddodd Lynne Owens, Cyfarwyddwr Cyffredinol, NCA, sylwadau ar bwysigrwydd timau plismona yn y gymdogaeth o ran helpu i fynd i'r afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol, ond roedd hyn yn wahanol i'w barn ychydig ddiwrnodau wedyn yn y wasg genedlaethol.
- 3.7 Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod wedi trafod materion mewn perthynas â hyn â Llywodraeth y DU yn ystod y digwyddiad a gofynnodd pa un oedd y ffordd orau o ddwyn partneriaid ynghyd. Nododd fod Byrddau Cynllunio Ardal yn rhannu gwybodaeth â'r llywodraeth yn ogystal ag uwchgyfeirio gofynion.
- 3.8 Gwnaeth PCC Michael sylwadau ar yr angen i ddwyn meysydd amrywiol ynghyd e.e. Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol, gwaith Prevent, Timau Troseddau Ieuencid, Camddefnyddio sylweddau a Byrddau Cynllunio Ardal. Roedd un pryder bod troseddau treisgar yn cael eu camddechongli yn y wasg ac roedd angen mabwysiadu dull gweithredu cydlynol. Ymhen mis mewn un ardal, rhoddwyd gwybod am gannoedd o achosion o droseddau'n ymwneud â chyllyll yng Nghymru a mwy na dwy fil o ddigwyddiadau trais domestig. Dywedodd PCC Arfon Jones fod swm sylweddol o arian wedi cael ei wario ar dargedau camddefnyddio alcohol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o farwolaethau yn ymwneud â chyffuriau ac nid alcohol. Roedd angen gofyn i Weinidog y DU a all sicrhau y byddai cyllid yn cael ei rannu'n deg â Chymru.

- 3.9 Nododd Joanna Jordan y byddai'r adran Iechyd yn dechrau ar ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o gynllun cyflawni tair blynedd ar gamddefnyddio sylweddau. Esboniodd ymhellach fod alcohol yn achosi mwy o farwolaethau na chyffuriau ac felly'n mynd i fwy o gostau. Crybwyllodd Ms Jordan y ffaith fod angen mwy o gudd-wybodaeth gysylltiedig a bod angen gwneud mwy dros y 3 mis nesaf i fynd i'r afael â hyn.
- 3.10 Nododd y Cynghorydd Debbie Wilcox fod Casnewydd yn gweithio'n dda yn yr ardal hon. Cyfeiriodd at y gwaith a wnaed gan yr heddlu a oedd yn arwain o'r blaen o ran delio â phroblemau ar gam cynnar a nododd waith y Prif Arolygydd Paul Davies o Heddlu Gwent yn benodol.
- 3.11 Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n ysgrifennu at Weinidog y DU i ddiolch iddo am ddod i lansiad Troseddau Cyfundrefnol Difrifol. Nododd hefyd bwysigrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth lywio dull cyson o fynd i'r afael throeddau difrifol a chyfundrefnol. Nododd PCC Michael fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bartner gwerthfawr ac roedd yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion allweddol ledled Cymru.
- 3.12 Rhoddodd Joanna Jordan y wybodaeth ddiweddaraf am ystafelloedd cymryd cyffuriau. Byddent yn anghyfreithlon yng Nghymru o ganlyniad i ddeddfwriaeth bresennol Llywodraeth y DU, sy'n rhwystr i waith ymchwil pellach ar hyn o bryd.
- 3.13 Cafodd papur ei ddisbarthu cyn y cyfarfod yn tynnu sylw at nifer o geisiadau a wnaed i Lywodraeth Cymru. Cafodd y papur ei gydnabod a gallai'r cynigion fod yn sail i drafodaethau pellach rhwng swyddogion.

4. Amrywiaeth

- 4.1 Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod wedi codi mater amrywiaeth o ran recriwtio gyda Ffederasiwn yr Heddlu fis diwethaf gan gydnabod fod hwn yn her.
- 4.2 Cadarnhaodd CC Jukes fod y pedwar heddlu yng Nghymru yn cydweithio i wella recriwtio o gefndiroedd amrywiol.
- 4.3 Esboniodd Comisiynydd Michael fod Heddlu De Cymru, tîm y Comisiynwyr a'r Prif Swyddogion eisoes wedi gwneud cryn dipyn o ymdrech i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chyrraedd cynulleidfau ehangach. Canolbwyntiwyd ar ddenu ymgeiswyr o grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau LGBT. Nododd CC Jukes fod Heddlu De Cymru wedi pennu strategaeth i greu gweithlu cynrychioliadol. Cydnabu CC Jukes fod datblygiad rhwng y rhywiau yn bryder. Nododd fod 42% o recriwtiaid yn ferched ond nad oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rhengoedd uwch. Esboniodd CC Jukes fod Heddlu De Cymru yn gweithio gyda phartneriaid megis BAWSO, Canolfannau Gwaith a'r Llynges Frenhinol, lle mae trafodaethau ystyriol yn mynd rhagddynt i nodi'r hyn sydd angen ei wneud i wella hyn. Ar hyn o bryd,

nid oes llawer o gyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru, ond byddai ei chymorth yn ddefnyddiol.

- 4.4 Dywedodd CC Jukes fod ceisiadau gan bobl o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu (30%) y cant, ac roedd 21,000 o bobl wedi ymgysylltu â Heddlu De Cymru ar Facebook. Fodd bynnag, dim ond 3% o'r swyddogion oedd yn dod o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli saith y cant o boblogaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ardal Heddlu De Cymru. Nododd CC Jukes na wnaed fawr ddim cynnydd gyda'r Gymuned Somalaidd yng Nghaerdydd a bod angen cymorth gan y Sector Cyhoeddus i sicrhau bod gan bawb gyfle cyfartal ac i helpu ymgeiswyr o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i fod yn fwy parod ar gyfer swyddi a'u paratoi cyn prosesau recriwtio'r heddlu.
- 4.5 Awgrymodd PCC Cuthbert fod angen i hyn fod yn broses ddwyffordd. Roedd yr heddlu wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu/diwrnodau gyrfaoedd ond nad oedd y rhain wedi cael yr effaith ddymunol. Roedd cefnogaeth gan arweinwyr cymunedol yn hanfodol i sicrhau y caiff recriwtio ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol ymhlith Cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- 4.6 Fodd bynnag, atgoffodd PCC Cuthbert y bwrdd mai ymhlith y bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig roedd y gagendor mwyaf o ran recriwtio o hyd. Dywedodd hefyd fod y canfyddiadau'n nodi fod angen cymhwyster safon gradd i fynd i mewn i wasanaeth yr heddlu a bod y PEQF yn arbennig o bwysig; a allai achosi i bobl ymddieithrio o wasanaeth yr heddlu.

5. Cydlyniant Cymunedol

- 5.1 Dywedodd CC Williams ei fod yn ddiolchgar am waith Reg Kilpatrick drwy'r Fforymau Cydnerth Lleol (LRF). Esboniodd CC Williams fod y pedwar Prif Gwnstabl wedi trafod yr Etholiadau Ewropeaidd mewn cyfarfod diweddar dros y ffôn. Roedd popeth yn mynd yn eu blaen yn ddiraferth ar y cam hwnnw, ac eithrio ychydig o weithgarwch asgell dde yn ardaloedd Heddlu De Cymru a Gwent.
- 5.2 Nododd CC Foulkes fod ansicrwydd eleni ynghylch Brexit wedi bod yn ddefnyddiol o ran treialu cynlluniau, er enghraifft, porthladd Caergybi lle roedd darpariaethau ffiniau gwell yn golygu bod nifer y staff wedi cynyddu 30 y cant. Diolchodd Reg Kilpatrick i'r Heddlu am ei gymorth gyda Brexit ac Ymgyrch YellowHammer, ond nododd fod diwrnod gadael posibl y DU ym mis Hydref yn prysur agosáu. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai mwy o gyllid cymunedol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cydlyniant cymunedol.

6. Uned Cyswllt yr Heddlu

- 6.1 Esboniodd PCC Cuthbert y byddai'n ildio ei rôl fel cadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn fuan i PCC Dafydd Llywelyn o Heddlu Dyfed Powys.

- 6.2 Dywedodd PCC Cuthbert fod arweinwyr yr heddlu yn buddsoddi yn Uned Cyswllt yr Heddlu er mwyn rhoi sail fwy ffurfiol a strategol iddi. Caiff swydd newydd nad yw'n wleidyddol ei sefydlu, sef Cyfarwyddwr Cynorthwyol nad yw'n swyddog yr heddlu nac yn wleidyddol a fyddai'n cael ei gefnogi gan Uwcharolygydd. Y nod cyffredinol yw atgyfnerthu cysylltiadau rhwng yr Heddlu a Llywodraeth Cymru. Esboniodd fod y proffiliau rôl wrthi'n cael eu creu cyn i'r rolau gael eu hysbysebu. Ymatebodd Reg Kilpatrick a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r adolygiad o Uned Cyswllt yr Heddlu am gryn dipyn o amser a diolchodd i PCC Cuthbert am y papurau'n crynhoi'r adolygiad a gyflwynwyd ymlaen llaw. Dywedodd hefyd y byddai'n ceisio gweithio gyda'r heddlu i ddatrys unrhyw broblemau gwleidyddol posibl yn ymwneud â rôl newydd y cyfarwyddwr cynorthwyol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod yn cytuno, mewn egwyddor, bod yr amser yn iawn i ailasesu Uned Cyswllt yr Heddlu ac roedd y cynigion yn y llythyr yn ddefnyddiol. Byddai'n eu hystyried ymhellach ac ymateb iddynt cyn bo hir.

7. Diweddariadau Ysgrifenedig

a. Diogelwch Cymunedol

- 7.1 Dywedodd PCC Michael, gydag adnoddau o 2010 ymlaen yn lleihau'n gyson, roedd yn ystyried ffyrdd eraill o atgyfnerthu'r bartneriaeth rhwng yr Awdurdodau Lleol a phlisma. Nododd fod dadansoddiad da yn hollbwysig ond bod gallu dadansoddiad wedi cael ei dorri ym maes polisi, llywodraeth leol ac eraill. Roedd adfer hwn yn heriol ond er budd pawb. PCC Llywelyn oedd yn arwain y gwaith ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan ac roedd hwn yn cael ei gysylltu â gwaith Diogelwch Cymunedol.
- 7.2 Nododd y Cynghorydd Deborah Wilcox fod Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol yng Nghasnewydd yn werthfawr ond bod heriau o ran cyllid yn golygu nad oedd yn sicr y byddent yn cael eu cadw ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ymatebodd Reg Kilpatrick gan nodi fod llifau gwaith wedi bod yn mynd rhagddynt er mwyn mynd i'r afael â materion a godwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn ategu diogelwch cymunedol.

b. Economi Sylfaen

- 7.3 Rhoddodd Nick Sullivan y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau economaidd i atgyfnerthu cymunedau lle roedd gwasanaethau'n dod yn rhan o'r economi leol. Y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth sy'n arwain y gwaith hwn. Rhoddodd hefyd fanylion am ddod o hyd i gyfleoedd ar gyfer entrepreneuriaid lleol a nododd fod pwyslais ar arloesedd.
- 7.4 Aeth Nick Sullivan ymlaen i ddweud fod angen i adrannau caffael gefnogi buddiannau lleol. Dywedodd CC Jukes fod Heddlu De Cymru yn ymwneud â'r gwasanaeth caffael a bod £75 miliwn wedi cael ei wario o fewn 50 milltir i Bencadlys yr Heddlu dros y deng mlynedd diwethaf. Cafodd hyn ei adleisio gan Carl Foulkes ar ran Heddlu Gogledd Cymru. Nododd PCC Jones fod Heddlu Gogledd Cymru yn gweithredu Polisi Gwerth Cymdeithasol sy'n creu buddiannau mwy economaidd ar gyfer ardaloedd lleol.

8. Cylch Gorchwyl

- 8.1 Dywedodd PCC Cuthbert fod drafft y Cylch Gorchwyl wedi'i addasu er mwyn ceisio annog y Swyddfa Gartref i gymryd rhan yn y Bwrdd Plismona. Dywedodd fod yr heddlu yn mynd y tu hwnt i'r galw er mwyn sicrhau bod gwasanaethau Whitehall yn mynychu'r cyfarfod. Os gallai Llywodraeth Cymru gytuno ar y Cylch Gorchwyl newydd, yna byddai PCC Cuthbert a PCC Llywelyn yn mynd i'r Swyddfa Gartref i siarad â gweinidogion. Pwysleisiodd PCC Cuthbert mai'r neges allweddol i Lywodraeth y DU oedd bod y fforwm yn bwriadu gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus cydlynol eu darparu yng Nghymru a dim byd arall. Nododd hefyd y byddai trafodaethau â Whitehall yn parhau er mwyn sicrhau eu presenoldeb.
- 8.2 Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn cytuno â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig mewn egwyddor ac yn gobeithio y byddai'r addasiadau yn ddigon i berswadio Adrannau Llywodraeth y DU i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.
- 8.3 **Cam Gweithredu 4: PCC Cuthbert a PCC Llywelyn i fynd â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig fel y'i cytunwyd yn ôl i Whiteall, yn y gobaith o sicrhau presenoldeb mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.**

9. Cofnodion Blaenorol (eitem sefydlog)

- 9.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2019 blaenorol yn gofnod gwir a chywir.

10. Eitemau Agenda'r Dyfodol

- Materion sy'n effeithio ar bobl ifanc.
- Cyffuriau a Niwed
- CC Jukes i gefnogi diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig a phroses y llysoedd teulu (bydd hyn yn ddiweddariad yn groes i'r brif thema)

Cyfarfod nesaf

26 Medi 2019

Tabl Camau Gweithredu – Camau gweithredu newydd o gyfarfod 16/05/2019

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb
(2.3) PCC Cuthbert i gyd-gysylltu ag ACC Drake / Uned Cyswllt yr Heddlu a Swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu rhagor o wybodaeth am gostau brysbennu. gyda'r bwriad o nodi cyfleoedd posibl i gyllido gweithgarwch brysbennu ar y cyd â Llywodraeth Cymru.	JC/JD
(2.8) Prif Swyddog Gweithredol Arweiniol y GIG i gydgysylltu ag ACC Drake, PCC Michael a Swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn trefnu cyfarfod i drafod effeithiolrwydd proses brysbennu Cymru gyfan lechyd Meddwl yr Heddlu a gwahodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a rhanddeiliaid allweddol eraill. Rhagwelir y bydd y cyfarfod hwn yn nodi cyfleoedd a fydd yn ategu cam gweithredu 1	AG
(3.3) CC Jukes i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y gwaith arfaethedig o uno Byrddau Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol Cymru gyfan yn ystod y cyfarfod nesaf.	MJ
(8.3) PCC Cuthbert a PCC Llywelyn i fynd â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig fel y'i cytunwyd yn ôl i Whiteall, yn y gobaith o sicrhau presenoldeb mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.	JC/ DL